



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Y Ganolfan Ddinesig  
Stryd y Castell  
Merthyr Tudful  
CF47 8AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful yn bartneriaeth gymunedol hirsefydledig sy'n gwasanaethu sir Merthyr Tudful. Cadeirydd dros dro presennol y bartneriaeth yw'r rheolwr parth cymunedol a dysgu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Yn 2018-2019, roedd gan y bartneriaeth 922 o ddysgwyr, sy'n ostyngiad yn niferoedd y dysgwyr dros y tair blynedd ddiwethaf. Y tri phrif bartner cyflenwi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr, Y Coleg Merthyr Tudful ac Addysg Oedolion Cymru. Mae Addysg Oedolion Cymru yn cynnig ychydig dros hanner o'r ddarpariaeth.

Yn ogystal â'r tri phrif ddarparwr, mae gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful sylfaen aelodaeth eang gyda chynrychiolaeth o'r sector Cymraeg i Oedolion, Canolfan Soar, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y sector gwirfoddol, cymdeithasau tai, a darparwyr cymorth ar gyfer iechyd ac iechyd meddwl. Mae'r partneriaid hyn yn cyflwyno ystod o gymwysterau achrededig a chymwysterau heb eu hachredu, dysgu anffurfiol, cymorth personol a chymorth cymheiriaid, yn ogystal â chyngor ac arweiniad.

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2018 yn dangos mai poblogaeth Merthyr Tudful yw 60,183, ac mae wedi cynyddu'n gyson ers cyfrifiad 2011. Mae cyfran y trigolion sy'n 65 oed neu'n hŷn ym Merthyr Tudful ychydig yn is, sef 18.6%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 20.6%.

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer 2019 yn dangos bod Merthyr Tudful yn ardal ag amddifadedd uchel, ac mae bron pob un o'i wardiau o fewn y 10-30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ar draws y bartneriaeth, mae 62% o ddysgwyr yn byw mewn 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae proffil cymwysterau oedolion ar draws Merthyr Tudful yn dangos bod lefelau uchel o oedolion heb unrhyw gymwysterau, sef 14.8%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 8.4%. Yn 2018, roedd tua un o bob pum oedolyn wedi cymhwyso islaw lefel 2, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef tua un ym mhob wyth. Mae'r gwahaniaeth hwn yn amlwg mewn cymwysterau lefel uwch hefyd.

Dim ond 9% o boblogaeth Merthyr Tudful sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Merthyr Tudful yn nodi mai eu grŵp ethnig yw Gwyn Prydeinig, ac mae 5.4% o drigolion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â 6.4% ar gyfer Cymru. Mae trigolion o gefndiroedd Pwylaidd, Portiwgeaidd a Ffilipino yn cyfrif am 57% o'r trigolion na anwyd yn y DU sy'n byw ym Merthyr Tudful.

Grant dysgu cymunedol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2019 oedd £45,327. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o leoliadau fel campysau coleg, canolfannau a chyfleusterau cymunedol, a safleoedd sefydliadau partneriaeth, yn ogystal â hybiau yn y gymuned.

## Crynodeb

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Maent yn dysgu, yn datblygu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a gaffaelwyd yn ddiweddar yn eu bywydau a'u gwaith bob dydd. Mae Gwasanaeth Lles Cymunedol yr awdurdod, y mae dysgu oedolion wedi'i leoli ynddo, wedi datblygu ethos o 'weithredu heddiw er budd yfory', sy'n treiddio trwy waith y bartneriaeth. O ganlyniad, mae lefelau lles dysgwyr yn uchel.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn dangos gwybodaeth bynciol gynhwysfawr. Maent yn cyfathrebu'n dda â'u dysgwyr ac yn ffurfio perthnasoedd gwaith cryf sy'n arwain at ymddiriedaeth ar y ddwy ochr, ac yn meithrin dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio'n glir ar ddarparu cyrsiau yn y meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, fel Sgiliau Hanfodol a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Bu'r bartneriaeth yn llwyddiannus o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigon eang yn dilyn gostyngiadau cyllid. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo lles a chyfranogiad ehangach yng nghymunedau Merthyr Tudful. Er enghraifft, trwy gyllid allanol ychwanegol, mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i gynnig cyfle gwerthfawr i elwa ar ddysgu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith, a gwella'r medrau a'r rhagolygon ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn gwaith. Mae'r hybiau cymunedol yn cynnig darpariaeth werthfawr sydd ar gael yn hawdd i gymunedau sydd angen cymorth o'r fath. Mae rhaglenni teuluoedd a rhianta'r bartneriaeth yn cael effaith sylweddol ar wella medrau dysgwyr a chynorthwyo eu teuluoedd.

Ar draws y bartneriaeth, mae partneriaid unigol yn gweithredu eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain yn briodol. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant y bartneriaeth, ar lefel partneriaeth drosfwaol, wedi'u datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, mae diffyg cysondeb ac eglurder ynghylch ansawdd safonau ac addysgu ar draws y bartneriaeth gyfan.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Da</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Digonol ac angen gwelliant</b>

## **Argymhellion**

- A1 Cryfhau trefniadau partneriaeth i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyfrannu'n gydlynus at lywio a gyrru gwella ansawdd ar draws y bartneriaeth
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu mewn gwersi SSIE a'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni
- A3 Cynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu
- A4 Nodi a rhannu arfer dda yn y ddarpariaeth yn effeithiol ar draws y bartneriaeth

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas ag effaith rhaglenni teuluoedd a rhianta ar fedrau a datblygiad personol y dysgwyr a'u teuluoedd, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

At ei gilydd, ar draws y bartneriaeth, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, ac yn cynhyrchu gwaith o safon gadarn. Maent yn dysgu, yn datblygu ac yn cymhwyso medrau newydd yn dda. Ar ychydig o raglenni, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd arafach na'r hyn y gallant ei gyflawni.

Mewn dosbarthiadau rhianta, gan gynnwys grŵp penodol ar gyfer tadau ifanc, mae bron pob un o'r dysgwyr yn caffael gwybodaeth newydd ynglŷn â sut i wella eu ffordd o rianta. Maent yn arbrofi â thechnegau rhianta gyda'u teuluoedd, yn myfyrio'n ofalus ar y canlyniadau ac yn gwneud cynnydd cryf iawn o ran datblygu eu medrau meddwl beirniadol. Gan ddangos parch mawr at gyfrinachedd, maent yn rhannu eu profiadau eu hunain, yn cynorthwyo'i gilydd yn dda, ac yn nodi sut gall y technegau y maent wedi eu dysgu fod o fudd iddyn nhw a'u plant.

Mewn dosbarthiadau dysgu i deuluoedd, mae rhieni a mamgu-od a thadcu-od yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â'u plant. Er enghraifft, mewn un sesiwn, bu pob un o'r dysgwyr yn gweithio'n dda ar weithgareddau a gynlluniwyd i addysgu eu plant am arian trwy brofiadau bob dydd. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae oedolion yn ennill dealltwriaeth ddefnyddiol o ddulliau presennol i wneud cyfrifiadau. Maent yn gwneud cynnydd cyson o ran gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol eu hunain, ac yn magu hyder mewn tasgau fel ysgrifennu *curriculum vitae*, gwneud ceisiadau am swydd neu ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol i ddysgu gyda'u plant.

Mewn dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd i oedolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson ac yn gweithio tuag at gymwysterau llythrennedd a rhifedd achrededig. Mewn mwyafrif o achosion, mae dysgwyr yn parhau â'u hastudiaethau dros gyfnod y flynyddoedd ac yn adeiladu ar eu dysgu a'u cyrhaeddiad blaenorol yn briodol. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol sy'n nodi eu targedau tymor byr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cysylltiadau defnyddiol rhwng y medrau y maent yn eu dysgu yn eu dosbarthiadau a sut i'w cymhwyso yn eu bywydau eu hunain, er enghraifft wrth ddarllen llythyrau, cyllidebu, addurno eu tŷ ac o ran cynyddu eu hannibyniaeth.

Mewn dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), sy'n cynnwys tua degfed rhan o ddarpariaeth y bartneriaeth, mae tua hanner y dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn datblygu eu Saesneg yn briodol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn ymddieithrio yn ystod gwersi gan nad yw cyflymdra'r addysgu yn briodol iddynt. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae ychydig o ddysgwyr yn cael y lle blaenaf mewn trafodaethau dosbarth fel na all dysgwyr eraill gyfrannu na gwneud defnydd digonol o'u Saesneg llafar. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr SSIE yn dysgu digon am Gymru a'i diwylliant trwy eu hastudiaethau. Mae ychydig o ddysgwyr mewn un ddarpariaeth SSIE yn datblygu eu medrau Cymraeg sylfaenol trwy ddosbarth Cymraeg wythnosol, ac mae hyn yn eu galluogi i integreiddio'n well yn y gymdeithas Gymraeg a chynorthwyo eu plant yn yr ysgol.

Ar draws y ddarpariaeth, mae dysgwyr ar ychydig o gyrsiau, fel clybiau dysgu i deuluoedd a chlybiau medrau, yn ymarfer geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarchion, diwrnodau a dyddiadau Cymraeg, a 'gair Cymraeg yr wythnos', neu'n cael adborth gan eu hathrawon gan ddefnyddio termau Cymraeg sylfaenol. Ar ychydig iawn o raglenni dwyieithog ar gyfer derbynyddion busnes a gweinyddesau meithrin, mae dysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau Cymraeg i'w helpu yn eu rolau swydd. Fodd bynnag, anaml y bydd dysgwyr ar fwyafrif o gyrsiau yn cael eu hamlygu i'r Gymraeg trwy eu rhaglenni. Dim ond ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n mynd ati i ddatblygu eu medrau neu gymhwyso'r iaith trwy eu rhaglenni.

Mae data ar berfformiad dysgwyr o'r tair blynedd ddiwethaf yn dangos bod dysgwyr yn y bartneriaeth yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac yn ennill cymwysterau ar gyfraddau tebyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan. Mae ychydig o feysydd dysgu yn dangos tueddiadau yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr sydd islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu ac yn cymryd rhan yn fuddiol mewn sesiynau. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu dysgu ac yn dangos hyn yn glir yn eu cyfraniadau at weithgareddau yn ystod sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn groesawgar, maent yn fodlon trafod eu dysgu yn ystyriol, ac yn rhyngweithio'n dda â staff, dysgwyr eraill ac ymwelwyr. At ei gilydd, mae dysgwyr yn mynychu eu dosbarthiadau'n rheolaidd ac yn dangos ymroddiad, er gwaethaf problemau personol a theuluol sy'n gallu rhwystro presenoldeb yn y sector dysgu oedolion. Mewn ychydig o ddisbarthiadau, mae tiwtoriaid yn dangos cydymdeimlad wrth ymdrin â phresenoldeb gwasgaredig ar gyfer dysgwyr sy'n delio â dibyniaeth ar alcohol, digartrefedd a phroblemau eraill yn ymwneud â ffordd ddi-drefn o fyw, i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ymgymryd â'u rhaglenni yn fuddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n briodol â'u dysgu, ac yn dal ati i ganolbwyntio'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft wrth weithio mewn parau a grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, ac yn gyfforddus wrth drafod eu cyflawniad a'u nodau personol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo bod cymryd rhan mewn cyrsiau wedi eu helpu i wella eu medrau cyflogadwyedd. Bron ym mhob dosbarth, mae cymorth i gyfoedion yn nodwedd gref o'r bartneriaeth, ac mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen fel grŵp i ddysgu pellach.

Mae'r lefel uchel o gymorth i gyfoedion ac ymddiriedaeth sydd gan ddysgwyr yn eu tiwtoriaid yn sicrhau bod bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy y dylent droi os byddant yn pryderu am broblemau'n ymwneud â bwlio ac aflonyddu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dweud bod staff yn dangos parch atynt, ac yn gwrando ar eu barn.

Caiff llawer o ddysgwyr eu cyfeirio at gyrsiau trwy asiantaethau cymorth arbenigol, sefydliadau partner ac ysgolion. Yn aml, daw'r dysgwyr hyn i'w rhaglenni ag anghenion a phroblemau iechyd lluosog, gan gynnwys hunan-barch isel, gorbryder neu iselder. Caiff bron pob un o'r dysgwyr hyn gymorth buddiol gan yr asiantaethau hyn yn ystod eu taith ddysgu. Mae ychydig o ddysgwyr â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn gweld bod mynychu dosbarthiadau i baratoi ar gyfer gwaith neu wella medrau darllen yn helpu lleihau straen, er enghraifft wrth ddelio â gohebiaeth ysgrifenedig fel cofnodion meddygol a llythyrau. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn gwella eu gwydnwch ac yn mynd yn llai dibynnol ar gymorth gan y tîm iechyd lleol.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo eu bod wedi gweld gwelliannau i'w lles trwy ddilyn cyrsiau. Er enghraifft, ar y rhaglen medrau gweithio, caiff dewisiadau am ffordd iach o fyw eu hannog ochr yn ochr â hyfforddiant cyllidebu ar gyfer y cartref. Mae defnyddio swyddogion ymgysylltu i wneud cyswllt cychwynnol â darpar ddysgwyr a'u symud ymlaen yn raddol i gamau cyntaf dysgu prif ffrwd yn nodwedd gref mewn sawl un o'r rhaglenni dysgu. Mae'r dull hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn creu ymlyniadau da â'u cyfoedion a'u tiwtoriaid. O ganlyniad, mae dysgwyr yn dyfalbarhau â'u dysgu er gwaethaf eu rhwystrau niferus. Er enghraifft, mewn ychydig o achosion, symudodd tua hanner y dysgwyr ymlaen o gwrs ar gyfer rhieni plant iau i rianta ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr bron ym mhob un o'r dosbarthiadau rianta ddisgrifio'r modd y maent wedi defnyddio'r technegau a ddysgwyd yn y dosbarth i wneud newidiadau cadarnhaol wnaeth wella ansawdd eu bywyd, fel darllen storïau i'w plant a pharatoi ar gyfer teithiau siopa. Gall llawer o ddysgwyr ar raglenni addysg sylfaenol i oedolion gymhwyso medrau rhifedd a gaffaelwyd yn ddiweddar i gyllidebu ar gyfer y cartref yn ddefnyddiol, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu bywydau a'u lles.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol i gynnal ffocws clir ar ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd bellaf oddi wrth gyflogaeth. Mae wedi datblygu dull cyfannol defnyddiol o weithio gydag ystod eang o asiantaethau i gynorthwyo teuluoedd, gyda'r nod penodol i ddatblygu cymunedau medrus a gwydn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bartneriaeth yn dadansoddi anghenion y boblogaeth leol yn dda, ac mae'n defnyddio arbenigedd partneriaid unigol yn effeithiol i ddarparu ystod ffocysedig o raglenni medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a rhaglenni SSIE sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Mae'r rhaglen dysgu teuluoedd, a gyflwynir mewn partneriaeth ag ysgolion lleol a'r coleg, yn nodwedd hynod gryf.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod o gyrsiau ymgysylltu ag iddynt hyd ac amseriadau addas i helpu dysgwyr i ddatblygu strategaethau defnyddiol i gefnogi eu lles, eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol eu hunain a'u teuluoedd, a'u medrau rianta. Mae'r partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyfeirio dysgwyr o raglenni ymgysylltu i raglenni eraill sy'n ymestyn eu dysgu neu'u helpu i ddatblygu medrau bywyd neu fedrau gwaith ychwanegol. Er enghraifft,

mae rhaglenni 'Pontydd i Waith' yn canolbwyntio ar fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac adeiladu, ac mae'r rhaglen 'Ysbrydoli i Waith' ('Inspire 2 Work') yn darparu cymorth magu hyder, hyfforddiant cyn-cyflogaeth, cymwysterau datblygiad personol, paratoi ar gyfer gwaith a lleoliad gwaith ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Mae'r bartneriaeth yn darparu llwybrau dilyniant clir i addysg bellach ac addysg uwch.

Mae darparu clybiau medrau, lle gall dysgwyr ymuno unrhyw bryd mewn unrhyw un o naw lleoliad cymunedol yn yr ardal i wella eu medrau mewn llythrennedd a rhifedd, yn nodwedd dda iawn ar y ddarpariaeth. Mewn ychydig o achosion, mae partneriaid wedi dechrau gweithio'n fuddiol gyda busnesau cenedlaethol a lleol i wella medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol gweithwyr yn y gweithle.

Er bod ardal Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yn gywasgedig yn ddaearyddol, mae'r bartneriaeth yn ymdrechu i ddefnyddio lleoliadau cymunedol sy'n gwbl hygyrch i ddysgwyr. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu 'Parth Cymunedol' ar ystâd y Gurnos, sy'n rhan o strategaeth yr awdurdod lleol i ymgysylltu â thrigolion yn eu cymuned, a chynnig cyfle i fanteisio ar ystod eang o asiantaethau a gwasanaethau cymunedol o dan un to, gan gynnwys cyfle i ddilyn rhaglenni addysg.

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod gyfyngedig o gyrsiau iaith y caiff eu cost lawn eu hadfer, gan gynnwys bale, ioga a dosbarthiadau sgwrsio yn Gymraeg. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu medrau dwyieithog. Mae'r bartneriaeth wedi cynorthwyo ychydig o ddsbarthiadau i fod yn glybiau fel y gall cyfranogwyr elwa o hyd ar gyfarfod â'i gilydd yn gymdeithasol, er enghraifft grŵp 'crefft a chlebran' a gefnogir gan elusen iechyd meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meddu ar wybodaeth bynciol gynhwysfawr. Maent yn gyfathrebwyr effeithiol sy'n ffurfio perthynas gref â'u dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi gwerth chweil sy'n ystyried ffyrdd ac anghenion unigol dysgwyr tra'n darparu lefel addas o her. Maent yn cyfeirio'n dda at wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr i gynllunio dysgu newydd. Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau SSIE, nid yw tiwtoriaid bob amser yn cynllunio gwersi sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau ieithyddol yn effeithiol o'u manau cychwyn unigol. Yn rhy aml, mae gwersi'n canolbwyntio gormod ar ramadeg a strwythurau brawddeg ar draul datblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr. Mewn lleiafrif o'r gwersi hyn, nid yw cyflymdra'r dysgu yn llwyddiannus o ran cynnal diddordeb dysgwyr yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio technegau holi effeithiol i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau datrys problemau, medrau meddwl a'u medrau gwerthusol. Defnyddiant ystod eang o weithgareddau sy'n herio dysgwyr ac yn eu helpu i feithrin gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rheoli dosbarthiadau a gweithgareddau'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau ymhellach trwy astudio y tu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r hyn y maent yn ei ddysgu mewn gweithgareddau hamdden a gwaith.



Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar adeiladol a chalonogol i helpu dysgwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid sy'n addysgu dosbarthiadau teuluoedd a rhianta yn ymarferwyr hynod fedrus sy'n dangos y gallu i gynorthwyo a meithrin dysgwyr yn briodol i'w helpu i feithrin gwydnwch. Maent yn creu amgylcheddau dysgu cyfforddus lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae rheolaeth dysgu oedolion wedi'i lleoli o fewn Gwasanaeth Lles Cymunedol yr awdurdod lleol. O ganlyniad i'r lefelau amddifadedd uchel yn y sir, mae'r awdurdod wedi datblygu polisïau a strategaethau manwl i fynd i'r afael â thlodi a lles sy'n nodi'n glir rôl allweddol dysgu oedolion o ran bodloni'r nodau hyn. Mae'r dull hwn wedi arwain at lefelau uchel o les dysgwyr.

Mae gan bron bob un o'r partneriaid systemau effeithiol i nodi, gwirio a monitro patrymau cymorth dysgu, lles a phresenoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid unigol i fonitro patrymau mewn presenoldeb neu les ar draws y ddarpariaeth gyfan.

Mae llawer o diwtoriaid yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn dda. Er enghraifft, mewn gweithdai cyflogadwyedd, mae tiwtoriaid yn pwysleisio'r modd y mae hyn yn gysylltiedig â llwyddo ym myd gwaith. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae dysgwyr yn mynychu'n dda.

Ar draws y bartneriaeth, ceir prosesau atgyfeirio effeithiol i alluogi dysgwyr i elwa ar ddarpariaeth briodol. Er enghraifft, mae bron pob un o'r partneriaid yn derbyn atgyfeiriadau gan wasanaethau a sefydliadau fel Cymunedau am Waith, y Ganolfan Byd Gwaith a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae mwyafrif y partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar ystod o raglenni ar draws y bartneriaeth i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, mae eu swyddogion yn gweithio'n agos gyda thiwtoriaid i nodi anghenion cymorth dysgwyr, fel rhesymau dros beidio â mynychu sesiynau, a chael hyd i asiantaethau cymorth priodol.

Mae arolwg blynyddol y bartneriaeth o ddysgwyr yn dangos bod llawer o ddysgwyr yn cael lefelau cryf o gymorth i'w helpu i oresgyn unrhyw rwystrau a allai fod ganddynt rhag dysgu. Pan fydd yn briodol, caiff dysgwyr asesiad cychwynnol ar ddechrau eu rhaglen. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth, mae anghysondebau yn y defnydd o asesu cychwynnol i nodi'n gywir fannau cychwyn priodol dysgwyr y gallant adeiladu arnynt.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn ymwybodol o anghenion ac ymrwymadau unigol dysgwyr, ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu medrau, hyder, iechyd a lles dysgwyr. Maent yn dangos llawer o ymroddiad i sicrhau bod eu dysgwyr yn cael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd. Mae'r rhan fwyaf o raglenni dysgu yn cynnig dull hyblyg i ddarparu ar gyfer ymrwymadau dysgwyr, a sicrhau bod ganddynt gydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd, er enghraifft wrth reoli trefniadau gofal plant, apwyntiadau meddygol a phatrymau sifftiau gwaith.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn hyrwyddo bwyta'n iach a phwysigrwydd cadw'n heini. Yn aml, mae tiwtoriaid yn darparu lluniaeth ar gyfer dysgwyr yn ystod gwersi a addysgir. Mewn un wers, ymgorfforodd y tiwtor sesiwn fer ar feddylgarwch ar ddiwedd y dosbarth i alluogi dysgwyr i fyfrio ar eu dysgu.

Caiff llawer o ddysgwyr gyngor ac arweiniad diduedd ar ddechrau'r rhaglen. Caiff bron pob un o'r dysgwyr lawlyfr cynhwysfawr i ddysgwyr, sy'n cynnwys ystod eang o wybodaeth am gyllid, cymorth dysgwyr ac iechyd a diogelwch.

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod cyflawniadau a llwyddiannau eu dysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau dathlu lleol a chenedlaethol.

Mewn gwersi a addysgir, caiff dysgwyr ar gyrsiau SSIE ystod eang o gyfleoedd i rannu profiadau eu gwahanol ddiwylliannau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gymuned leol a'r byd ehangach. Mewn rhaglenni'r blynyddoedd cynnar a rhaglenni teuluoedd, mae tiwtoriaid yn cynorthwyo rhieni i greu rhwydweithiau cryf o ran rhoi cymorth i gymheiriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â dysgwyr.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder. Caiff bron pob un o'r staff hyfforddiant gwerth chweil ar ddiogelu ac Atal. Mae ychydig o diwtoriaid yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr o gadw'n ddiogel, gan gynnwys radicleiddio ac eithafiaeth, yn briodol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful weledigaeth glir, gyda nodau ac amcanion priodol sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol allweddol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar y meysydd blaenoriaeth allweddol fel cyrsiau medrau hanfodol a SSIE, tra'n llwyddo i gynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n hyrwyddo lles a chyfranogiad ehangach dysgwyr o fewn y gymuned. Mae'r bartneriaeth yn dechrau sefydlu cydweithio rhwng y partneriaid sy'n adlewyrchu'r genhadaeth ar y cyd ac ymrwymiad gwirioneddol i ethos 'gweithredu heddiw er budd yfory'.

Er 2017, mae'r cadeirydd dros dro presennol wedi gweithio ag egni a phenderfynoldeb i yrru'r bartneriaeth ymlaen, gyda ffocws ar wella cyfranogiad partneriaid trwy aelodaeth ehangach, effeithlonrwydd y bartneriaeth ac ansawdd ei darpariaeth. Er enghraifft, mae gan gynllun cyflwyno gwasanaethau'r bartneriaeth rôl ganolog mewn sicrhau bod yr holl bartneriaid, gan gynnwys y rhai sy'n darparu cyrsiau y tu allan i'r meysydd blaenoriaeth cenedlaethol, yn canolbwyntio'n glir ar dargedau, gwella ansawdd a chynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda yn strategol i ddatblygu dulliau sy'n mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â thlodi a chynyddu lles dysgwyr.

Mae gan y bartneriaeth gylch sicrhau ansawdd a hunanwerthuso clir, ac mae'r darparwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion perthnasol. Mae cylch gorchwyl y bartneriaeth yn amlinellu rôl aelodau'r bartneriaeth a'u disgwyliadau yn ddefnyddiol.

Mae partneriaid unigol yn gweithredu eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau defnyddiol fel arsylwadau gwersi, rheoli perfformiad a chyfleoedd dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mae methodoleg

ac ansawdd arsylwadau gwersi yn amrywio gormod ar draws partneriaid. Er enghraifft, mae gwerthusiadau arsylwi gwersi yn canolbwyntio mwy ar addysgu yn hytrach nag adolygu cynnydd ac ymgysylltiad dysgwyr. O ganlyniad, mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth gyfyngedig o gynnydd dysgwyr ar draws ystod y darparwyr. Yn ychwanegol, er bod gan lawer o bartneriaid ddealltwriaeth resymol o anghenion hyfforddiant eu staff eu hunain, ni chaiff hyn ei roi ar waith, ac ni thrafodir themâu cyffredin ar draws y bartneriaeth. O ganlyniad, mae diffyg cysondeb ac eglurder ar lefel partneriaeth ac nid yw'r bartneriaeth yn nodi nac yn rhannu arfer dda yn ddigon da.

At ei gilydd, nid yw hunanwerthuso ar lefel partneriaeth yn ddigon gwerthusol, a dibynnir yn ormodol ar ddata i bennu safonau addysgu a dysgu. Nid yw cynlluniau datblygu ansawdd yn alinio'n ddigon cyson nac yn cynnwys camau gweithredu perthnasol a chilir ar gyfer gwella. Mae'r bartneriaeth yn realistig a gonest wrth gydnabod y diffygion hyn, a'r effaith y mae colli personél allweddol ac adnoddau eraill wedi'i chael ar ei gallu i weithredu fel y mae wedi gwneud yn y gorffennol. Mae wedi gwneud penderfyniad strategol i ganolbwyntio ei hadnoddau ar gynnal safonau'r ddarpariaeth a sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yn bodloni blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â pharhau i ddiwallu anghenion a lles y gymuned ehangach. At ei gilydd, mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i gynnal darpariaeth o safon dda.

Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth gadarn o'i hincwm a'i gwariant, mae'n rheoli ei chyllideb ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn effeithlon, ac mae ganddi lefelau priodol o staff â chymwysterau addas, ac adnoddau. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn gweithio'n rhagweithiol i gael hyd i gyllid ychwanegol, er enghraifft o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac mae'n defnyddio'r cyllid hwn yn dda i ehangu ac ychwanegu gwerth at ei chynnig darpariaeth graidd. Mae cyrsiau o'r fath yn darparu cyfleoedd dysgu a hunanddatblygu yn llwyddiannus ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith, neu'n gwella medrau a rhagolygon ar gyfer y rhai sydd mewn gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn foddhaol i'r argymhellion o'u hadroddiad arolygu diwethaf. Er enghraifft, mae wedi archwilio lleoliadau addysgu, ac wedi cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod safleoedd yn addas i gefnogi addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnwys cael grant datblygu digidol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaeth a lleoliadau addysgu yn addas at eu diben ac yn addas ar gyfer dysgwyr yn yr oes ddigidol. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu hybiau cymunedol i sicrhau bod darpariaeth a chyfleusterau wedi eu lleoli yn yr ardaloedd sydd â'r angen cymdeithasol ac economaidd mwyaf, ac sydd ar gael yn hawdd i ddysgwyr. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth wedi adolygu ei darpariaeth SSIE yn ddefnyddiol. Mae darparwyr cymunedol ac addysg bellach yn cydweithio'n fuddiol i gynnig ystod addas o gyrsiau amser llawn a rhan-amser sy'n dechrau ar wahanol adegau trwy gydol y flwyddyn.

Mae partneriaid yn cydweithredu'n effeithlon i ddatblygu ychydig o raglenni i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r rhain yn cynnwys ychydig o weithgareddau hamdden a diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yng Nghanolfan Soar gyda gweithgareddau fel pilates, ioga a bale ar gyfer plant. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r cyfleoedd a gaiff siaradwyr Cymraeg i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn gyfyngedig.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a holiadur i gyflogwyr, ac ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr a'r corff llywodraethol, lle bo'n briodol, trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth/prif weithredwr, y llywodraethwyr (lle y bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr unigol i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr amser cinio ac amser egwyl
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle y bo'n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2020